

Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2010 Rhif 362



tud 3
Pobl a Phethe

tud 7
Apêl Pacistan

tud 9
Ysgolion

tud 10/11
Hanes

Ar Agor... Ar Gau

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio mae adroddiadau cyson wedi ymddangos yn y wasg leol a chenedlaethol am siopau a busnesau eraill yn cael eu gorfodi i gau yn sgil y sefyllfa economaidd. Braf felly yw medru adrodd am fenter busnes newydd a sefydlwyd yn ddiweddar yn ardal *Papur Pawb*.

Ailagorodd Siop Artists' Valley yn Ffwrnais ar 8 Medi, ar ôl bod ar gau am dros ddwy flynedd. Sharon Lockyer a'i merch-yng-nghyfraith Nerys Lockyer, y ddwy o ardal Aberystwyth, sydd y tu cefn i'r fenter. Ar hyn o bryd mae'r siop ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9 tan 5, ond y gobaith maes o law fydd ei hgor ar foreau Sadwrn a Sul. Gellir prynu nwyddau amrywiol yno, ac mae modd archebu papurau dyddiol ac wythnosol – a *Papur Pawb*, wrth gwrs! Yn fuan bydd rhewgyst yn cael ei gosod yn y siop, gan eu galluogi i werthu bwydydd wedi'u rhewi hefyd. Er mai prin wythnos oedd ers i'r siop ailagor pan alwais yno, roedd y gair yn dechrau mynd ar led bod siop ar agor unwaith eto a'r trigolion lleol yn galw heibio. Bydd y siop o fudd mawr i'r ardal gan fod yr un agosaf atynt ers rhai misoedd bellach dros bedair milltir i ffwrdd. Dymunwn yn dda iawn i Sharon a Nerys gyda'r fenter hon a hyderwn y byddant yn derbyn cefnogaeth y bobl leol.

Ond tra bod newyddion da o'r Ffwrnais, nid felly mae pethau yn Nhref-ddôl gan fod siop, garej a chaffi Clettwr ill tri wedi cau yn ystod yr haf. Mae pryddles y lle ar werth, a



gobaith y perchnogion – Huw a Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl – yw y bydd rhywun lleol yn barod i ddilyn esiampl Sharon a Nerys Lockyer fel nad oes raid i drigolion Llangynfelyn deithio allan o'u cynefin i brynu eu nwyddau sylfaenol. Os oes diddordeb gennych yna ffoniwch 01970 832429 am fanylion.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Tâllesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis.	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henlllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Siân Saunders, Is y Coed, Taliesin	832230
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Geraint Pugh, Dôl Pistyll	832433
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Murmawr, Tal-y-bont	
Is-gadeirydd:	Sian Pugh, Dôl Pistyll	832433
Ysgrifennydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Trysorydd:	Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont	832442
Aelodaeth:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Hysbysebion:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Plygu:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,	
Dosbarthwyr:	Bloddyn Huws (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Dyn y Mêl

Yn rhifyn mis Medi o Papur Pawb, roedd erthygl am *Dyn y Mêl*, cyfrol Wil Griffiths, Comins Coch. Roedd cwestiwn ar y diwedd, gyda chopi o'r llyfr yn wobwr i'r ateb cywir cyntaf a dderbyniwyd, sef 'Beth oedd enw "answyddogol" Arglwyddes Llanofar?' Yr ateb oedd 'Gwenynen Gwent'. Llongyfarchiadau i'r enillydd, sef Bill Gardener, Pandi, Tal-y-bont.

Plaidd Cymru, Cangen
Tal-y-bont
Cynhelir

HAWL I HOLI

Nos Wener 12 Tachwedd

Bydd Elin Jones AC ymhlith
aelodau'r Panel

Cinio Sioe'r Cardis

Ardaloedd Gogledd Ceredigion
Nos Sadwrn 20 Tachwedd
GWESTY LLETY PARC
7.30 ar gyfer 8.00yh
Tocynnau: £20
Cysylltwch ag Eirlys Lloyd:
01970 611268/07969 847497

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhelir gwasanaeth o
ddiolchgarwch am y cynhaeaf
yn Eglwys St. Pedr, Elerch,
brynhawn Sul,
31 Hydref am 2.30 pm,
dan ofal
y Parchg Andy Herrick,
Eglwys y Santes Anne,
Penparcau.

Croeso cynnes i bawb.

Nos Sadwrn, 30 Hydref

Cyngerdd i'r Galon

Gyda Chorau Meibion
Ceredigion
(Aberystwyth, Blaenporth,
Caron, Cwmann)
Canolfan y Celfyddydau,
Aberystwyth.

Tocynnau £10, ar gael
oddi wrth
Janice Petche
(01970) 828861

Elw at
Apêl Nyrs Calon Ceredigion

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Dyddiadur

HYDREF

- Bethel 10 Gwasanaeth**
Diolchgarwch Undebol
Nazareth a Rehoboth
Oedfa'r Ofalaeth
- Eglwys Bethel 7.30 Rhaglen**
Ddatblygu yr Annibynwyr
Cymraeg
Bethesda Tŷ Nant 2 Cwrdd
Diolchgarwch *Beti Griffiths*
- Pwyllog y Neuadd Goffa 8**
Neuadd Goffa Tal-y-Bont
- Clwb Nos Wener 7.30**
Neuadd Goffa: Sioe Cwmni
Arad Goch, *Cwru, Tsips a*
Darlith Deg. Tocynnau £6.00
a £5.00 (Falyri Jenkins
832560)
- Bethel 10 Beti Griffiths**
Nazareth 10 Eifion Roberts
Rehoboth 10 M J Morris
Eglwys St. Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- Merched y Wawr Ymweld â**
Swyddfa'r Cynulliad yn
Aberystwyth
- Sefydliad y Merched**
Tal-y-bont 2 Neuadd Goffa
Cyfarfod Blyneddol a the
Cynhaeaf
- Cymdeithas Farddol**
Tal-y-bont 8 Llew Gwyn
- Bethel 5 Gweinidog (Cymun)**
Nazareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 5 Bugail
- Cyngor Cymuned**
Ceulanamaesmawr 7.30
Neuadd Goffa

- Bethel 2 Gweinidog**
Nazareth 2 Judith Morris
Rehoboth 10 Glyn Morgan
Eglwys St. Pedr, Elerch
2.30 Cwrdd undebol a
chyfarfod diolchgarwch am y
cynhaeaf gyda'r Parch. Andy
Herrick

TACHWEDD

- Bethel 10 Gwasanaeth**
Teuol
Nazareth 11.15 Bugail
(Cymun)
Rehoboth 10 Huw Roderick

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwilym ac Eleri,
gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf
fydd Medi (832725; llanerch@globalnet.co.uk),
Mared Llwyd (832980) Llio Rhys a
Fran Disbury, gydag Elgan yn dylunio. Dylai'r
deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd
Gwener 5 Tachwedd a bydd y papur ar werth
ddydd Gwener 12 Tachwedd.

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ALIGNMYCAR.CO.UK

HUWLEWISTYRES.COM

Ffôn 01970 636774

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Mignon Rowlands, Glanhaul, Taliesin, sy'n dod dros lawfeddygaeth ar ei llaw ar hyn o bryd.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Clare Watkin, Heulfor, Tal-y-bont, ar basio ei phrawf gyrru'n ddiweddar, a hynny ar y cynnig cyntaf.

Brysiwch Wella

Pob dymuniad da am wellhad buan i rai a fu'n cael triniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar, yn eu plith Mrs Jano Evans, 94 Maes-y-deri; Mrs Curigwen Griffiths, Glanleri; Mrs Aldwyth Morgan, Maesmawr; Mr Ifor Jones, Odyn Fach; Mr David Evans, Tanllan, Llangynfelyn. Anfonwn gyfarchion hefyd at Mr Bennett Jenkins, Cerrigcaranau, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau calonog i Mrs Eluned Williams, Cynnullmawr, Tal-y-bont, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 29 Medi. Ei hanrheg i ddathlu'r achlysur oedd trip i lawr i'r Celtic Manor, Casnewydd, i weld goreuon byd golff o Ewrop ac America'n paratoi ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Ryder (cyn i'r glaw ddechrau disgyn!). Pob dymuniad da iddi hi.

Damwain

Bu damwain bur gas yn Nhre Taliesin ddydd Sadwrn 25 Medi pan gafodd Sally o'r Hendre ei bwrw i lawr gan gar wrth iddi ymbaratoi i fynd i'r coleg yng Nghaerfaddon. Deallir nad oedd ei hanafiadau'n rhai difrifol a dymunwn wellhad buan iddi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Helen a Dylan Huw Jones, Bryncastell, Bow Street (gynt o Brynawelon, Tal-y-bont) ar enedigaeth eu mab, Huw Lloyd Jones, ar 11 Awst, brawd bach i Elen Non. Pob dymuniad da i'r teulu.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Myfanwy Jones, 3 Stryd James, Tal-y-bont, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Priodas

Llongyfarchiadau i Mandy Jones, Maes-y-deri, Tal-y-bont, a Derek Glennie o Benrhyn-coch, a briododd yn Nhwrri ym mis Awst. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

Croeso

Croeso i Jenny a'i mab Danny sydd wedi symud i fyw yn Rhiwlas, Taliesin.

Pen-blwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Enid Williams, gynt o Frondirion, Taliesin, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 97 oed yn ddiweddar. Mae hi bellach yn preswyllo yng nghartref Tregerrdan, Bow Street.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mrs Valma Jones, Wern, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith, Mrs Una Morris, Gerddi'r Ffynnon, Aberystwyth, ddydd Sul 3 Hydref.

Tystysgrif Chwarae Teg

Dros y tymor pêl-droed diwethaf, mae'r Talybont Teriys – sef bechgyn Blwyddyn 3 a 4 – wedi bod yn brysur iawn. Pan oedden nhw'n chwarae yn nhwrnameint Cwpan Cymru dan 8 yn Aberaeron yn ddiweddar, daeth y tîm yn bedwerydd. Ond, yn nes ymlaen, cawsant wybod eu bod wedi ennill gwobr arbennig iawn, sef Tystysgrif Chwarae Teg. Dyfarnwyd y wobwr hon i'r Teriys oherwydd mai nhw oedd y tîm oedd wedi chwarae'r gêm yn y ffordd fwyaf teg drwy gydol y tymor. Da iawn chi, Teriys, a llongyfarchiadau ar eich llwyddiant.



Pysgota yn Nhwrri!

Steffan Evans o Bont-goch, gyda'r pysgodyn a ddaliodd ym mis Awst yn y môr ger un o ynysoedd Twrci. Roedd yno gyda'i ffrind Peter i ddathlu priodas Mandy, mam Peter. Da iawn ti, Steffan!

Merched y Wawr

Wedi seibiant dros yr haf, croesawodd Enid Gruffudd yr aelodau gan gydymdeimlo â nifer o'r aelodau yn eu gwahanol brofedigaethau, a llongyfarch y rhai a enillodd wobrau mewn eisteddfodau, sioeau ac ati.

Derbyniodd pob aelod raglen o weithgareddau ac ymweliadau'r gangen o Fedi 2010 hyd Fehefin 2011 gyda nosweithiau difyr a doniol a fydd yn sicr at ddant pawb.

Gwesteion y noson agoriadol oedd Sam, Esther a Medi, cyn-ddisgyblion o Ysgol Tal-y-bont. Cawsom wledd o gerddoriaeth ar delyn a chàn, yn cynnwys alawon traddodiadol a chaneuon o sioeau cerdd.

Diolchodd Medi i bawb am noson wefreiddiol. Yn ein cyfarfod nesaf ar 18 Hydref, byddwn yn ymweld â Swyddfeydd y Cynulliad gyda Deian Creunant.

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddeisio o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA

Ffôn: 01970 871042

Symudol: 07773 846659



Trip Bethel

Gwenodd yr haul ar drip Capel Bethel ddydd Sadwrn Medi 25, a hynny ym mhob ystyr i'r gair. Camodd dau ar bymtheg o'r aelodau ar y bws i gyhwyn ar daith drwy Feirionnydd, gan aros yn gyntaf yn Nolgellau. Cafwyd paned yn hen siop TH Roberts, sy'n amgueddfa ynddi i hunan ac yn atgoffa rhywun o'r siopau erstalwm lle gallech brynu popeth, o bwys o hoelion i alwyn o baraffin. Croesi i'r Ganolfan Groeso wedyn, i ymweld â'r arddangosfa ar hanes a brwydr y Crynwyr yn ardal Dolgellau – lle gwerth ei weld. Ymlaen i Ganolfan Coed y Brenin, a rhyfeddu ar ddau beth: yr adeilad coed hynod o atyniadol a 'gwyrrdd' (a gynlluniwyd gan gwmni Harry James); a gwlyio ieuencid yn gwibio'n epaol o goeden i goeden uwch ein pennau. Rhai yn ein plith yn meddwl 'trueni na fuaswn yn iau!' – ond y rhan fwyaf yn fodlon cadw'n traed yn solet ar y ddaear a mwynhau'r cinio blasus!

Rhyw dair milltir lawr yr hewl mae Trawsfynydd, ac yn hytrach na gwibio heibio (fel y gwna y rhan fwy ohonom) dyma droi am y pentref i ymweld â Llys Ednowain. Yma cawsom ddarlith ardderchog gan Keith O'Brien ar y Sant John Roberts. Mae eleni, wrth gwrs, yn bedwar canmlwyddiant ers ei erledigaeth a'i ddefnyddu i farwolaeth gan y brenin Harri'r VIII. Ymlaen â ni wedyn i'r arddangosfa drws nesa i ddysgu am arwr arall y Traws, sef Hedd Wyn, bardd y Gadair Ddu.

Cadw i fynd am y gogledd hyd y troad ym Maentwrog, a chymryd yr hewl ar y chwith i Harlech. Mwynhau gweld traethau Meirion ar eu gorau yn yr haul, ar y ffordd i'r ymweliad olaf – sef Eglwys Llandanwg. Roedd hon yn un o eglwysi'r pererinion i Enlli; fe'i sefydlwyd yn y bumed ganrif ac o'r herwydd mae hi'n un o eglwysi hynaf Prydain. Yn y fynwent cawsom gyfle i edrych ar fedd Siôn Phylip, un o'r clerwyr olaf i'r uchelwyr.

Troi am 'nôl nawr i Ddolgellau, a thros y bwlch i Ddinas Mawddwy. Erbyn hynny roedd pawb yn barod am swper, a'r Llew Coch yn barod amdanom ninnau! Cafwyd diweddsglo blasus i ddiwrnod hynod o ddifyr a braf, a diolch yn fawr i Gwilym Huws a Hefin Llwyd am wneud y trefniadau.

GE



Pêl-droed

Tal-y-bont Teirw dan 11



Sam yn dangos ei Sgiliau!

Hyfryd oedd darllen yn y *Western Mail* ddydd Iau 16 Medi am lwyddiant diweddaraf Sam Ebenezer, Maes-y-felin, Tal-y-bont, sy'n dod yn enw cyfarwydd trwy Gymru benbaladr am ei ddoniau amryfal. Y tro hwn, daeth Sam i'r brig mewn cystadleuaeth 'Be the Producer' a drefnwyd gan SgiliauCymru. Y sialens i'r cystadleuwyr oedd cynhyrchu fideo 60 eiliad yn sôn am eu swydd ddelfrydol a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd honno. Y beirniaid oedd Lucy Owen, un o gyflwynwyr y BBC, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Cynulliad, a Silverstream, cwmni cynhyrchu teledu.

Yn ogystal ag ennill camera, treuliodd Sam dridiau yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd, yn dysgu sut i ffilmio a chyf-weld, yn ogystal â phob math o sgiliau eraill sy'n angenrheidiol os am lwyddo ym maes cystadleuol y cyfryngau.

Dywedodd Sam, 15 oed, a'r cystadleuydd ifancaf i ymgeisio, 'Ro'n i'n awyddus i roi cynnig arni gan fy mod wrth fy modd yn cyf-weld pobl, ac yn mwynhau bod o flaen camera neu gynulleidfa.' Gellir gweld fideo Sam a gwybodaeth bellach ar y wefan www.sgiliaucymru.co.uk.



O'r Almaen i Dal-y-bont

Croeso i Pete a Carol Monaghan, a'u merched Lorna a Mona, sydd wedi symud yn ddiweddar i fyw yn Bancyfelin, Tal-y-bont o Ravensburg, ar bwys Llyn Constance yn yr Almaen. Maent yma am ddwy flynedd tra bod Pete, sy'n ddylunydd ac arlunydd, yn dilyn Cwrs Meistr mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gellir gweld rhai o'i ddarluniau hyfryd yn cael eu harddangos yn Oriel y Bont, Aberystwyth, neu ar ei wefan, www.petemonaghan.com.

Mae Carol yn nyrs drwyddedig, ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau gwneud doliau o waith llaw, gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, organig. Mae Lorna a Mona wedi ymgartrefu'n hapus yn Ysgol Tal-y-bont, ac wrthi'n brysur yn dysgu Cymraeg, eu trydedd iaith gan eu bod hefyd yn siarad Almaeneg a Saesneg. Dymunwn bob hapusrwydd i'r teulu tra byddant yn byw yn ein plith.

Trip Ysgol Sul Bethel



Teithiodd aelodau brwdfrydig a heini Ysgol Sul Bethel i lawr i Sir Benfro fore Sadwrn, Hydref 2ail er mwyn treulio'r prynhawn ym mhwl nofio'r Garreg Las, neu 'Bluestone' fel y'i gelwir. Roedd criw o 30 ar y bws, yn blant ac oedolion, a phob un a'i wisg nofio'n barod!

Cawsom amser difyr iawn yn y dŵr. Mae disgrifio'r lle fel pwll nofio'n gamarweiniol braidd. Gyda'r tonnau ffyrnig, y llithrenni niferus a'r afon araf sy'n ymlwybro allan i'r awyr agored, roedd y lle'n

llawer mwy na hynny. Ac er mai lle i oedolion yn unig oedd y jacwsi, gwelwyd aelodau o bob oed yn gwibio'n goesau i gyd i lawr y llithren allanol, anferthol.

Cododd yr holl ymarfer corff chwant bwyd arnom, felly rhaid oedd galw yn Aberaeron ar y ffordd adre am lond plât o sglods – diwedd glo perffaith i ddiwrnod hwyliog dros ben!

HJ

ELIN JONES Aelod Cynulliad Plaid Cymru — Ceredigion



*Mae Elin Jones yn
cynnal cymorthfeydd rheolaidd
ar draws Ceredigion.*

*I wneud apwyntiad, cysylltwch â
swyddfa'r etholaeth yn Aberystwyth:*

Elin Jones AC
01970 624 516
elin.jones@wales.gov.uk
32 Heol y Wig, Aberystwyth, SY23 2LN

Glyder Fawr

Yn rhifyn mis Tachwedd 2009 o *Papur Pawb* cafwyd adroddiad a llun am gamp Ella Evans, Y Dderwen, Tal-y-bont a Zoë Foster-Brown, Ffwrnais, yn dringo i gopa tri o fynyddoedd Eryri sef y Glyder Fawr (999 metr), Carnedd Llywelyn (1,060 metr) a'r Wyddfa (1,085 metr).

Trwy eu hymdrechion codwyd £1,500 tuag at dair elusen. Ar y pryd, barn Ella oedd mai dringo i ben y Glyder Fawr oedd y sialens fwyaf, felly gallwch ddychmygu ei hymateb i'r newyddion a dorrodd yn ddiweddar, sef bod syrfewyr yn defnyddio offer GPS wedi profi y tu hwnt i bob amheuaeth bod y Glyder Fawr 1.8m (tua 6 troedfedd) yn uwch na'r hyn oedd ar bob map. Oherwydd hynny, codwyd uchder y mynydd yn swyddogol i fod dros 1,000 metr gan roi statws uwch-fynydd i'r Glyder Fawr.

Ymateb Ella oedd: 'Hyfryd clywed y newyddion ar 21 Medi fod y Glyder Fawr hefyd dros 1,000 metr, ac felly dyna ni wedi dringo tri o uwch-fynyddoedd a ni ein dwy dim ond yn ddeg oed ar y pryd.' Llonyfarchiadau iddynt eto ar eu camp.

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri

*Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard*
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Teyrnged

Evan James

(Fel teyrnged i'r diweddar Evan James (Ianto Pantglas), 1 Heol y Gogledd, Tre'rddol a fu farw'n ddiweddar, mae'n fraint gennym gynnwys fersiwn talfyredig o bortread a ysgrifennwyd rai blynyddoedd yn ôl gan Carys Briddon. Rydym yn ddiolchgar iawn i Carys am ei chaniatâd i gynnwys ei gwaith yma. Goln.)

Cafodd Evan ei eni a'i fagu ym mhentref Tre'rddol, ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Roedd ei Dad-cu'n hanu o Ysbyty Ifan ger Pentrefoelas, a phan oedd ar ei ffordd adre o'r milisia fe gwrddodd â'i ddarpar-wraig, merch o Ystumtuen; ni ddychwelodd i'w fro enedigol, ac ymgartrefodd y ddau yn Nhre-Taliesin.

Ym Mhantglas, Tre'r-ddôl, y ganwyd Evan, a bu ei rieni'n byw yno am 39 mlynedd, cyn symud yn ôl i Daliesin. Mynychodd Ysgol Gynradd Llangynfelyn hyd nes iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 14 oed. Mr Dennis Hughes oedd y prifathro bryd hynny, gyda thair athrawes yn ei gynorthwyo. Roedd yno 95 o ddisgyblion, a'r ddisgyblaeth yn llym. Byddai Evan yn mynd at ei Fam-gu a'i Dad-cu yn Voelas Villa, ac yn byw drws nesaf iddynt roedd J.R. Jones, y bardd. Yng nghwmni Evan yr aeth J.R. i Ysgol Llangynfelyn am y tro cyntaf, ac nid anghofiodd erioed am y gymwynas honno.

Ar ôl gadael yr ysgol, bu'n rhaid i Evan fynd allan i weithio, a'r fferm gyntaf iddo fynd iddi fel gwas oedd Tyngraig. Bu am gyfnodau hefyd ym Mhenrhwyngerwin, y Winllan a Llwynglas, ymhlith llefydd eraill. Pan oedd yn was yn y Winllan, roedd wrth ei fodd yn mynd i bentref Bont-goch gyda'r nos i gymdeithasu. Cofiai'n dda am y cyfarfodydd hwyliog a gynhelid yn yr ysgoldy, a digonedd o fwyd ardderchog ar y byrddau bob amser.

Pan oedd Evan yn was yn Llwynglas, priododd ef â Katie, a bu'r ddau'n byw yn hapus yn 1 Heol y Gogledd, Tre'r-ddôl am ymhell dros 50 mlynedd. Yn fuan ar ôl priodi, cyflogwyd Evan gan y Comisiwn Coedwigaeth yn yr ardal, a bu'n gweithio iddynt am bron i 30 mlynedd.

Medrai Evan enwi pawb a oedd yn byw ym mhob tŷ a siop ym mhentrefi Tre'r-ddôl a Thre-Taliesin yn ystod ei ddyddiau cynnar. Roedd y ddau bentref yn fwrwm o weithgaredd yr adeg honno, a chofiai'r Eisteddfod a gynhelid yng nghapel Soar, a'r dramâu a lwyfannwyd yn yr Hen Gapel ac yn Llan Fach. Roedd crefftwyr a siopau o bob math yn y ddau bentref, gyda gweithdy yn rhif 2 Heol y Gogledd—y tŷ a fu'n gapel i'r Wesleaid yn y cyfnod cynnar, cyn adeiladu'r Hen Gapel. Yn yr un stryd roedd siop Tomi Isaac, a thafarn y Commercial. Roedd yna garej lle mae Tegfan heddiw, ac ystordy lle mae Penrhyn, gyda'r perchennog yn byw yn Brynawelon. Ar draws y ffordd yn Frongoch roedd siop cigydd, a'r anifeiliaid yn cael eu lladd yn y *slaughter house* ger y bont. I fyny'r stryd roedd y felin yn brysus yn malu blawd, a Lal Richards a'i mam, Mari, yn cadw siop yn Stryd y Felin. Byddai Mari'n gwerthu menyng yn Aberdyfi, a bryd hynny gallai groesi ar y fferi o Ynyslas i Aberdyfi. Roedd rhagor o siopau yn y tai yr ochr draw i'r bont, efail y gof yn Egryn, a thafarn yn yr Halfway. Pan yn blentyn, cofiai Evan y cyffro pan ddaeth trydan i'r ddau bentref am y tro cyntaf, pan lwyddodd Dr Williams, Cletwr Hall, i'w gynhyrchu o ddŵr yr afon Cletwr.

Bu Evan yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor Bro am flynyddoedd lawer, gyda'r fantais ei fod yn gwybod am leoliad pob tŷ a fferm o fewn plwyf Llangynfelyn. Arferai dreulio oriau lawer yn y tŷ gwydr, a phan alwais i'w weld roedd yno'n hau hadau blodau ar gyfer yr haf, a'r bwrdd o'i flaen yn fôr o liw.

CB

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120


**MID WALES
STORAGE**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES

Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Apêl Pacistan

Braf oedd gweld gwaelod y Neuadd Goffa'n gyfforddus lawn nos Wener 1 Hydref, pan ddaeth criw hwyliog at ei gilydd i fwynhau swper blasus a chymdeithasu er budd apêl Capel Bethel i godi arian ar gyfer Trychineb Pacistan. Roedd criw o ferched prysur, dan arweiniad Medi James, wedi paratoi cawl hyfryd i bawb, a chacen gyda phaned o de. Ar ôl tynnu'r raffl, cafwyd cwis dan ofal Geraint a Siân Pugh, Dôl Pistyll, gyda phawb yn cael cyfle i ddangos eu gwybodaeth (neu, mewn rhai achosion, eu hanwybodaeth rhoncl!) ar bynciau mor amrywiol â nifer y ffenestri yn y Llew Du, pris tollau Pont Hafren, a logos Pizza Hut neu geir Peugeot! Talwyd y diolchiadau ar ran Bethel gan yr ysgrifennydd, Gwilym Huws, a gwych oedd clywed fod bron i £400 wedi ei godi yn ystod y noson.



Aelodau'r tîm cwis buddugol yn dathlu eu llwyddiant!



Gwydion Jones, Gellimanwydd, yn barod i gychwyn ar ei daith

Cyfrannodd un o aelodau ifanc Bethel, sef Gwydion Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, £250 ychwanegol at yr Apêl, a hynny trwy gael ei noddi i seiclo'r holl ffordd yn ôl i'r coleg yn Abertawe ar ddechrau'r tymor. Cwblhaodd y daith 68 milltir mewn 4 awr 15 munud. Hoffai Gwydion ddiolch o galon i bawb fu'n ei gefnogi trwy gyfrannu i'r gronfa.

Cychwynnwyd casglu tuag at Apêl Pacistan ar ddechrau mis Awst trwy drefnu casgliad ymhlith aelodau Bethel, lle codwyd £500. Bellach, mae cyfanswm cyfraniad Bethel at yr apêl yn £1,150, a dymuna'r swyddogion ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu cefnogaeth.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Wedi haf prysur iawn oedd yn cynnwys ymweld â nifer o sioeau lleol, fe gyrhaeddodd mis Medi yn syndod o gyflym. Wrth gwrs, dyma fis cynhadledd fawr y Blaid ac eleni fe'i cafwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Daeth torf dda at ei gilydd drwy gydol y tridiau i glywed sawl araith a thrafod pynciau mawr y dydd, ac rwy'n edrych ymlaen at gael y gynhadledd yn ôl i Geredigion eto yn y dyfodol.



Yn ogystal â mynychu'r Gynhadledd, fe fues mewn nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir, o agoriad arddangosfa gelf yn Amgueddfa Aberystwyth i agor peiriant newydd cwmni Teifi Concrete yn Llanwnnen.

Yn benodol, fe fynychais gyfarfod o dra bwys i drigolion Aberteifi. Wedi misoedd o drafod a chynllunio, mae criw lleol wedi dod ynghyd i brynu cyfrannau mewn cwmni cydweithredol er mwyn datblygu safle Pwllhai ar gyfer y gymuned. Y bwriad yw darparu maes parcio cyfleus yng nghanol y dref ynghyd â nifer o siopau yn gwerthu cynnyrch lleol. Llongyfarchiadau iddynt, ac rwy'n falch o glywed bod manylion terfynol y cytundebau yn barod a'r ddwy ochr ar fin eu cyfnewid.

Digwyddiad pwysig arall ym mis Medi yw dechrau'r flwyddyn academiaidd yn ein colegau. Mae cannoedd o fyfyrwyr newydd eisoes wedi cyrraedd ein sefydliadau yn Aberystwyth a Llambled, a hoffwn estyn croeso cynnes iddynt i'r ardal. Yn yr un modd, hoffwn ddymuno'n dda i'r rheiny fydd yn gadael Ceredigion i fynd i astudio mewn prifysgol y tu allan i'r sir.

Yn olaf, fe gafwyd cyhoeddiad pwysig yn ddiweddar ynghylch dyddiad posib ar gyfer y Refferendwm i symleiddio'r broses o ddeddfu yn y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno mai ar y 3ydd o Fawrth 2011 y dylid cynnal y bleidlais honno, ac mae disgwyl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ystyried y cynnig hwn yn awr. Rhwng y Refferendwm ac Etholiadau'r Cynulliad, fe fydd 2011 yn sicr yn flwyddyn wleidyddol brysus iawn yng Nghymru!



Ysgol Bontgoch, 1932

(Llun trwy garedigrwydd Mrs May Royle)

Rhes gefn, chwith i'r dde: Miss Pugh, athrawes; Kitty Jones, Bwlchcrosser; Elizabeth Bwlchydderwen; May Edwards, Elerch House; Lizzie Williams, Troedrhwiweiri; Enid Edwards, Carregcadifor.

Ail res: Dan Hughes, Llawrcwm-mawr; Annie Hughes, Llawrcwm-mawr; Tegwen Tirbank; Doris Thomas, Top Pentre; Gwyneth Edwards, Elerch House; Valmai Edwards; Doris James, Penrow; Gwyn Hughes, Llawrcwm-mawr; Miss Evans, athrawes.

Rhes flaen: David Rowland Jones; Glyn Davies, Fronallt; Ron Hughes, Llawrcwm-mawr; Gareth Edwards, Elerch House; Gareth Evans, Llawrcwm-bach.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl gwyliau'r haf ar 27 Medi. Croesawyd yr aelodau'n ôl gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Gerwyn Jones.

Ymhlith y materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol nodwyd fod Swyddogion Cymdeithas Tai Ceredigion bellach wedi cynnal cyfarfod ymgynghorol gyda thrigolion Maes-y-deri ar gynlluniau'r Gymdeithas i wella'r stad. Adroddodd y Clerc fod un sylw a wnaed yn ystod y cyfarfod hwnnw gan y trigolion wedi ei anelu at y Cyngor Cymuned, sef yr angen i fabwysiadu camau i arafu cerbydau ar y ffordd gefn rhwng Penlôn a Than-y-coed lle mae'r plant yn croesi i fynd i'r Cae Bach. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn drwy osod atalfeydd a gostwng cyflymdra ceir i 20 milltir yr awr. Cytunwyd i anfon llythyr at yr Adran Prifffyrdd gyda nifer o awgrymiadau i sicrhau bod y rhan hon o'r ffordd yn fwy diogel i blant. Nodwyd hefyd fod y gwaith o beintio'r cysgodfannau bysiau wedi'i gwblhau'n raenus, a bod y Cyngor Sir wedi cwblhau'r gwaith atgyweirio yn y Cae Bach.

Dan reoliadau newydd *Cyfrifon ac Awdit (Cymru)* bydd gofyn i'r Cyngor symud yn gynt i gwblhau'r cyfrifon blyneddol. Er mwyn hwyluso'r broses hon awgrymodd y Clerc y dylai'r hysbysebion yn gwahodd ceisiadau am gymorth ariannol gan gymdeithasau lleol gael eu hanfon fis yn gynt nag arfer, gyda'r Cyngor yn cadarnhau'r cymorthdaliadau hyn ddiwedd Ionawr yn hytrach na diwedd Chwefror. Derbyniwyd cyngor y Clerc. Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn egluro'r drefn newydd o gasglu gwastraff o gartrefi o 15 Tachwedd ymlaen, sef casglu deunyddiau Ailgylchu a Gwastraff Bwyd yn wythnosol a chasglu gweddill y Gwastraff Tŷ bob pythefnos. Ar y cyfan, croesawyd y datblygiad.

Mae'r Comisiwn Ffiniau bellach wedi cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth a llunio argymhellion drafft ar drefniadau etholaethau Cyngor Sir Ceredigion. Yr argymhellion mwyaf arwyddocaol yw gostwng nifer y Cynghorwyr Sir o 42 i 37. Gan fod yr adroddiad yn argymhell cadw Ward Etholaethol Ceulanamaesmawr fel ag y mae [h.y. i gynnwys cymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor-y-Coed] yn unol â dymuniad y Cyngor yn ei dystiolaeth, cytunwyd nad oedd angen anfon ymateb pellach i'r Comisiwn.

Derbyniwyd copi o'r Gorchymyn Gwyro Arfaethedig i Lwybr Troed 6/79 Nant Llwyd, Bont-goch. Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn i Neuadd y Sir, Aberaeron erbyn 20 Hydref 2010. Roedd y Cyngor eisoes wedi dangos eu cefnogaeth i'r gwyrdd.

Adroddwyd bod yr Adran Gynllunio wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol: adeilad amaethyddol amlbwrpas ar fferm Tynygraig, ail annedd ar bwys Cae Pant Gwyn, Bont-goch ac estyniad unllawr yng Nglanceulan. Gwrthodwyd y cais i godi annedd ar bwys Cae'r Gog, Bont-goch.

O dan unrhyw faterion eraill, cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at nifer o arwyddion ffordd oedd wedi diflannu'n ddiweddar o'r Patshyn Glas, ar gornel Brynhyfryd a'r gyffordd ger Neuadd Fach, ynghyd â chyflwr gwael y gwteri ar ochr y ffordd o Brynhyfryd i Neuadd Fach. Cytunwyd i alw cyfarfod o Is-bwyllgor y Fynwent i lunio tendr newydd ar gyfer pori neu dorri'r gwair yn y darn islaw'r fynwent.

Adroddodd y Cadeirydd fod trigolion Dôl Pistyll wedi derbyn llythyr gan y datblygwr i nodi eu bod yn symud ymlaen i gwblhau'r gwaith o gwmpas y stad er mwyn ei mabwysiadu, a bod y gwaith bellach wedi ei ddechrau. Diolchwyd i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn am ei dyfalbarhad yn pwysu ar y Cyngor Sir i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni.

Gwelliannau i'r Argae



Fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr *Papur Pawb*, mae'r ardal hon yn derbyn ei chyflenwad o ddŵr yfed yn bennaf o gronfa Craig-y-Pistyll ym mhen pellaf Cwm Eleri, a Llyn Llygad Rheidol wrth droed Pumlumon Fawr. Codwyd yr argae cyntaf yng Nghraig y Pistyll yn 1877, a hynny i gwrdd â galw'r gweithfeydd mwyn gerllaw am gyflenwad cyson o ddŵr. Ond yn dilyn tranc y diwydiant mwyn, nid oedd angen tynnu dŵr o'r gronfa hon hyd nes y tyfodd y galw am ddŵr tap i gartrefi Aberystwyth a'r cylch yn ystod hanner cyntaf yr ugenfed ganrif. Yn niwedd y 1930au, felly, fe gwblhawyd nifer o welliannau i'r gronfa, a thrwy hynny sicrhawyd fod digonedd o ddŵr i gwrdd â'r galw. Mae'n debyg i welliannau pellach gael eu gwneud i'r gronfa yn nechrau'r 1960au.

Eleni, fe aed ati unwaith yn rhagor i wneud gwelliannau pellach i'r gronfa yn dilyn arolwg a wnaed yn 2006. Bryd hynny, daethpwyd i'r casgliad bod angen echangu'r llithrfa i gario llif y dŵr i mewn i afon Eleri o dan yr argae yn ystod tywydd gwlyb iawn, rhag i'r dŵr oedd yn cronni godi'n uwch na lefel yr argae. Yn ystod misoedd yr haf bu'n rhaid gostwng lefel y dŵr yn y gronfa er mwyn i weithwyr godi llwyfan cored labrith (*labyrinth weir platform*) i ddisodli'r gored bresennol. Hefyd, ar bwys y llwyfan newydd, codir pont i gludo cerbydau ynghyd â chwblhau nifer o welliannau eraill, megis cryfhau glan ogleddol y gronfa.

Bellach mae'r gwaith adnewyddu yn tynnu at ei derfyn; ni tharfydd o gwbl ar ein cyflenwad dŵr, diolch i Lyn Llygad Rheidol, a fu'n ffynhonnell ddŵr gwbl ddibynadwy i dref Aberystwyth a'r cyffiniau ers 1883. Os hoffech weld y gwaith a wnaed yno, bydd angen i chi fynd draw yn ystod yr wythnosau nesaf, cyn i'r dŵr godi'n ôl i'w lefel arferol.

Dofednod Cwmtynant



Dofednod ffeir o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden neu gwy iâr erbyn y Nadolig Cysylltwch â Dilwyn, Marion, Rhydian neu Elgan Evans
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

Ysgol Tal-y-Bont



Cyngor Ysgol

Hoffai'r ysgol longyfarch y canlynol ar gael eu hethol yn aelodau o'r Cyngor Ysgol: Tia Johnston-Jones, Ashleigh Evans, Leci Taylor, Celyn Evans, Betsan Siencyn a Caitlin Evans. Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Tomos a Betsan Siencyn am gael eu hethol yn llysgenhodon yr ysgol ar gyfer y flwyddyn.



Arad Goch

Yn ystod y mis, roedd hi'n braf cael croesawu Cwmni Arad Goch yn ôl i'r ysgol i berfformio sioe o'r enw 'O Gam i Gam' i blant y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn hyfryd gweld y cwmni'n defnyddio neuadd yr ysgol a'r ardal allanol. Cafodd pawb hwyl yn cymryd rhan wrth gasglu cerrig yn ystod y sioe i helpu eraill i adeiladu pethau da.

Staff newydd

Hoffem groesawu Miss Mared Hughes fel aelod o staff yr ysgol. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd yn mwynhau ei chyfnod gyda ni yn Ysgol Tal-y-bont. Yn ystod y mis hefyd, mae tri cyn-ddisgybl wedi bod yn ein cynorthwyo yn y Clwb ar ôl Ysgol. Diolch yn fawr iawn i Lowri Evans, Anna Davies a Claire Watkin am ymgymryd â'r gwaith.

Dymuniadau gorau

Hoffem ddymuno'r gorau i ddau aelod o staff sydd wedi cael triniaeth mewn ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio y bydd Rose Jones a Ruslana Johnson yn cryfhau'n gyflym ac yn dod yn ôl atom yn fuan.

Os am dacs neu fws mini
**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Cofiwch am wefan
Papur Pawb.

Evch i:

www.papurpawb.com

Ysgol Llangynfelyn

Gŵyl Rygbi

Aeth disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 i Wyl Rygbi yn y Clwb Rygbi yn Aberystwyth yn ddiweddar. Cafwyd hwyl yn cynhesu i fyny gyda'r plant eraill o ysgolion ardal Aberystwyth. Dysgodd y plant sgiliau newydd a hefyd cafwyd cyfle i chwarae mewn gêmâu rygbi.



Arddangosfa Clwb Celf Taliesin

Gwahoddwyd plant yr ysgol i gymryd rhan mewn arddangosfa Celf yn Llanfach ddydd Sadwrn 25 Medi. Bu'r plant yn brysur iawn yn creu gwaith Celf ar y thema 'Bwyd a Ffermio'. Beirniadwyd y gwaith gan aelodau'r Clwb Celf, a hoffem ddiolch iddynt am roi'r cyfle arbennig yma i'r plant. Dyfarnwyd y canlynol yn fuddugol ar y diwrnod: *Cyfnod Sylfaen*: Grace Davies; *Blynnyddoedd 3 a 4*: Zeb Rowell; *Blynnyddoedd 5 a 6*: Nansi Dingle a Nina Davies



Grace Davies



Nina Davies



Gwersi Beicio

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 wersi beicio yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cawsant gyfle i ddysgu am sut i ofalu am eu beiciau yn ogystal â dysgu sut i deithio'n ddiogel ar y ffordd fawr.

Pêl-droed



Tal-y-bont dan 15



Byw yn ôl y llyfr

Mae'n siŵr bod nifer o ddarllenwyr *Papur Pawb* yn cael mwynhad mawr ar hyn o bryd wrth wylïo'r gyfres deledu ysgafn *Byw yn ôl y llyfr*. Ynddi mae Bethan Gwanas a Tudur Owen yn ail-greu'r cyfarwyddiadau manwl ar bob agwedd o fywyd yn Oes Fictoria a geir yn y gyfrol *Llyfr Pawb ar Bob Peth* a gyhoeddwyd gyntaf ar ddechrau'r 1870au. Yn y rhaglen gyntaf soniwyd bod awdur y gyfrol, y Parch. Thomas Thomas, wedi treulio cyfnod byr fel Gweinidog gyda'r Wesleaid yng Nghapel Soar, Tre'r-ddôl yn ystod y 1860au.

Ganed Thomas Thomas yng Nghaernarfon yn 1839 a'i swydd gyntaf oedd fel prentis argraffydd i Hugh Humphreys, Caernarfon – arloeswr mawr ym maes argraffu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg rhad yn y 19g. Roedd ganddo yntau hefyd gysylltiad agos â'r ardal hon, gan ei fod yn fab i David Humphreys, gwerthwr hetiau a hanai o Dre'r-ddôl.

Gŵr ifanc 23 mlwydd oed oedd y Parch. Thomas Thomas yn 1862 pan gafodd ei ordeinio'n weinidog ar Eglwys Soar. Yn ystod ei weinidogaeth yno, bu'n ddiwyd gyda'r gwaith o ehangu Capel Soar, ond erbyn dathliadau Jiwibili'r Capel yn 1870 roedd wedi symud o'r ardal ac yn weinidog yn Nhrefeglwys ym Maldwyn. Roedd ei ofalaeth olaf yn Ulverston, yng ngogledd-orllewin Lloegr, lle bu farw ar 1 Mai 1888 yn ŵr cymharol ifanc.

Yn y rhagair i'w lyfr cynhwysfawr, dywed Thomas: 'Mae gan y Cymro nifer fawr o lyfrau Crefyddol, Barddoniaeth aruchel, a Thraethodau godidog ar y Gwyddorau a'r Celfyddydau, ond nid oes ganddo gyfrol fechan, yn cynnwys gwybodaeth am bethau cyffredin bywyd. Llenwi y diffyg yma yw amcan y Llyfr hwn.' Does dim amheuaeth i'r gyfrol brofi'n hynod o boblogaidd yn ei dydd, gan iddi gael ei had-graffu o leiaf dair gwaith. Ond go brin y byddai'r awdur na'r cyhoeddwr wedi dychmygu y byddai'n sail i gyfres deledu boblogaidd rhyw 140 o flynyddoedd yn ddiweddarach! Syndod oedd deall bod copi o'r llyfr mewn sawl cartref ym mhentref Tal-y-bont hyd heddiw, ond ni fentrais holi i ba raddau roedd y perchnogion yn dilyn y cynghorion a gynnigir ynddo!

Hanes yr ardal

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn hanes yr ardal hon fynychu cyflwyniad ar hanes Morus Cwmrhaeadr, y dyn olaf i'w grogi am ddwyn defaid yng Ngheredigion. Roedd Morus yn hanu o gwm Llyfnant, ac yn byw yng nghwm Ceulan pan gafodd ei ddal. Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, fydd yn cyflwyno'i hanes mewn cyfarfod sy'n agored i bawb ddydd Sadwrn, 6 Tachwedd am 2.00 y prynhawn yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Clwb Nos Wener: Bob Delyn Bach

Er y gellid maddau i rywun a dybiai mai Bob Delyn a'r Ebbillion oedd o flaen cynulleidfa Clwb Nos Wener ar 17 Medi, y gwir amdani yw mai Bob Delyn Bach oedd enw'r band dawnus a ddaeth i'n diddanu, sef neb llai na'r hen stêjars sgwarnoglyd ar eu gwedd acwstig newydd.

Mae gwreiddiau Bob Delyn yn rhai gwerinol a di-drydan. Ugain mlynedd a mwy'n ôl byddai Twm a Gorwel yn bysgio mewn llefydd fel Portmeirion am ychydig o bres cwrw, ac amheuthun yn wir oedd cael mynd yn ôl at y gwreiddiau hyn a chlywed pob gair o rai o benillion tlysaf yr iaith.

Roedd y sain – gitâr, telyn, gitâr fâs, sacsoffonau ac offerynnau pres – yn unigryw, ac felly hefyd gyflwyniad hamddenol Twm Morys. Braf yw gweld cerddorion yn ymgysylltu go iawn â'u cynulleidfa, a'r gynulleidfa honno – a oedd yn cynnwys to ifanc addawol iawn ei olwg – yn ymateb mor frwd. Aeth yn gymanfa ganu go-iawn erbyn y diwedd, gyda'r lle dan ei sang a phawb yn bopio i fersiwn bwgi Bob o'r anthem genedlaethol.

Trist yw nodi bod posibilrwydd mai'r noson hon fydd un olaf y Clwb Nos Wener yn y Llew Du am sbel. Allwn ni 'mond gobeithio y bydd rhyw dro ar y rhod yn hanes y Blac ac y cawn ni gyfle i fwynhau nosweithiau cyfaredol yno eto.

Rydym yn ddiolchgar i gynllun Noson Allan am ei gefnogaeth i'r noson.

SS/MD

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com

ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch
ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 113982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Blitz Llundain a Thal-y-bont

Os byth y byddwch yn crwydro ardal Islington yng ngogledd Llundain, oedwch am funud neu ddwy o flaen ffenestr y siop sydd ar y gornel ddi-nod rhwng Cross Street a Florence Street. Heddiw dyma safle *Wild Swans*, siop dillad merched o'r radd flaenaf sy'n arbenigo mewn ffasiynau Sgandinafidd. Ond dyma hefyd leoliad un o'r trychinebau gwaethaf a effeithiodd ar ardal Tal-y-bont yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae 70 mlynedd wedi mynd heibio ers cychwyn cyrchoedd awyr y *Luftwaffe* ar ddinas Llundain; rhoddwyd cryn sylw'n ddiweddar ar y cyfryngau i'r cyfnod du hwnnw ac fe'm hatgoffwyd fod effeithiau'r cyrchoedd hyn wedi ymestyn cyn belled ag ardal *Papur Pawb*. Cychwynnodd y cyrchoedd ar Lundain o ddifrif ym Medi 1940.

Lladdwyd degau o filoedd yn eu sgil, ac yn eu plith – ar 6 Tachwedd 1940 – Margaret Ann Evans (45 oed) a'i phlant Gwladys Gwyneth (19) a Keinion Elwyn (17), 54 Cross Street, Islington. Claddwyd eu llwch ym mynwent Tal-y-bont, a nodir ar y garreg fedd iddynt gael eu lladd 'by enemy

action'. Mewn ysgrif yn y gyfrol *Ein Canrif*, nodir 'Ymhlith y galarwyr yn eu hangladd roedd Nathaniel Evans (tad a thad-cu) a Mrs Walters (mam a mam-gu) ... yn ogystal â nifer fawr o berthnasau agos yn yr ardal.' Mae'n sicr



bod y newyddion am y drychineb hon wedi cael cryn effaith ar y gymuned leol a chasglodd Cyngor Plwyf Ceulanamaesmawr y swm anrhyddedus iawn o £103.7s.6d tuag at y 'Cardiganshire Spitfire Fund' ym misoedd Hydref a Thachwedd y flwyddyn honno.

Er mai yn 1940/41 roedd y bomio ar ei fwyaf dwys, cafwyd bomio achlysurol hefyd am weddill y rhyfel. Yn 1943 digwyddodd trychineb arall a daflodd gysgod dros yr ardal hon, fel y tystia carreg fedd sydd i'w gweld ym Mynwent Tal-y-bont i goffâu dau a gollodd eu bywydau, sef Evan Lewis a'i wraig Gwladys, Park Road North Acton, Llundain. Roedd Gwladys Lewis yn ferch i John ac Ellen Lumley, Gwynllys, Tal-y-bont (Pandy erbyn hyn) a'i gŵr yn fab i Benjamin a Margaret Lewis, Goleufryn, Tai Gwynion, Llandre. Fel llawer o Gymry Llundain eraill o Geredigion, roeddynt yn rhedeg busnes gwerthu llaeth. Mae'r arysgrif ar y garreg yn cofnodi'n foel iddynt golli eu bywydau ar yr un diwrnod, sef 19 Mai 1943, 'trwy weithred y gelyn' a chawsant eu claddu gyda'i gilydd ar 25 Mai. Mae'n debyg mai bom strae a darodd y cartref, a dyna pam na chafwyd unrhyw rybudd ymlaen llaw.

Beth amser yn ôl, gwahoddwyd pobl i gyfrannu eu hatgofion o'r Ail Ryfel Byd i wefan y BBC, *WW II People's War*, ac ymhlith y 47,000 o hanesion a gasglwyd mae adroddiad dau lygad-dyst o'r digwyddiad a laddodd Mr a Mrs Lewis. Mae un o'r ddau, sef Bob Walker oedd yn byw rhyw hanner canllath o gartref y Lewisiaid, yn nodi bod y bom a ddisgynnodd yn dderybudd wedi taro llaethdy'r teulu yn uniongyrchol gan ladd y ddau ar unwaith, ond bod eu merch hynaf, Mair, rhywsut neu'i gilydd wedi llwyddo i ddianc fwy neu lai yn ddianaf. Yn fuan wedyn fe'i gwelodd yn eistedd mewn sioc enbyd ar stepen drws ei gartref. Wedi'r drychineb, dychwelodd Mair i fyw at ei theulu yn Nhal-y-bont, a bu'n gweithio am gyfnod mewn swyddfa cyfreithiwr yn Aberystwyth. Bu farw yn Vancouver yn 1996 yn 71 mlwydd oed, ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yng Nghnada. Mae ei chwaer, Mrs Buddug Morgan, yn dal i fyw yn ne-orllewin Lloegr.

Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, gwelwyd newidiadau mawr yn yr ardal lle arferai'r Lewisiaid ddsbarthu llaeth gyda cheffyl a chert bob bore. Yma bellach mae'r South Acton Estate, sef stad o dros 2,000 o dai cyngor, y rhan fwyaf ohonynt yn flociau uchel o fflatiau.

GH



CHWARAEON

Tal-y-bont dan 13 yn eu gwisg Pêl-droed newydd a nodwyd gan Gronfa Eleri

Gŵyl Bêl-droed

Cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed Gary Pugh ar 12 Medi 2010. Trefnwyd y twrnamaint gan Glwb Pêl-droed Llanilar ar y cyd â Chynghrair Iau Aberystwyth. Bu cystadlu brwd gan y timau i gyd yn ystod y twrnamaint, ond sêr y sioe oedd Tal-y-bont yn y gystadleuaeth dan 11 (blwyddyn 5/6). Llwyddodd y tîm i ddod i'r brig mewn gornest hynod gystadleuol, gan ennill 4-0 yn erbyn yr hen elyn Bow Street. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran, a phob lwc i'r timau lleol i gyd yn ystod y flwyddyn.



Tal-y-bont dan 11, enillwyr tarian grŵp dan 11 oed



Ysgol Tal-y-bont – Rygbi

Cawsom lawer o hwyl yn chwarae rygbi yn erbyn nifer o dimoedd Aberystwyth mewn pencampwriaeth rygbi-cyffwrdd. Aeth pawb o flwyddyn 5 a 6, a rhannwyd y plant yn ddau dîm. Chwaraewyd 6 gêm ac ennill 5. Sgoriwyd ceisiau'r timau gan Harri Mason, Kieran Kelly, Rhodri Hughes a Sion Nelves. Diolch i Gareth Williams, trefnydd rygbi'r sir, a'r dyfarnwyr am bob cymorth ar y dydd.

Cae'r Odyn Galch

Mae'r pyst gôl yn eu lle, y gwair wedi'i dorri, y llinellau wedi'u marcio – mae popeth felly mwy neu lai'n barod ar gyfer cynnal gemau pêl-droed ar faes Cae'r Odyn Galch, ger ffordd Maesnewydd. Gwnaed cryn waith ar y cae dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys creu mynedfa newydd a fydd yn osgoi problemau wrth droi mewn i'r cae. Bydd agoriad swyddogol i'r cae yn cael ei gynnal cyn bo hir. Mae lle i ddiolch i'r gwirfoddolwyr a fu wrthi'n paratoi'r cae.

Mae modd i bawb o'r ardal gefnogi'r fenter drwy brynu tocynnau Clwb 200. Mae'r tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor (Ellen ap Gwynn, Gwyn Jenkins, Mark Ebenezer, Barrie Jones, Anthony Southgate, Bryn Smith, Gwilym Huws, Alun Davies, Marc Richards, Ceri Jones a Wendy Jones). Y gost yw £10 am y flwyddyn, gyda gwobrau gwerth tua £1000. Cofiwch gefnogi!

Talybont – Borth

Ydd Sadwrn, 9 Hydref, Cae'r Odyn Galch, 2.30pm